# Amgueddfa Cymru

# Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhywedd – ar 5 Ebrill 2025

**Cyflwyniad**

A ninnau'n elusen ac yn gorff hyd braich a noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dal i ymrwymo i degwch, cydraddoldeb a thryloywder ym mhob agwedd ar ein gwaith. Ein cenhadaeth yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau cyflog rhwng y rhyweddau fel rhan hanfodol o greu gweithle cynhwysol a theg.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad manwl o'n bwlch cyflog rhywedd ar sail data a gymerwyd ar 5 Ebrill 2025, yn unol â'r gofynion statudol ynglŷn ag adroddiadau. Mae'n adlewyrchu'n hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb ac yn tynnu sylw at feysydd lle rydym yn perfformio'n dda a lle mae angen gwella.

Mae'r fframwaith adrodd statudol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu data yn defnyddio categorïau rhywedd deuaidd. Rydyn ni'n cydnabod nad yw rhywedd yn ddeuaidd, ac yn ymrwymo i gefnogi pob hunaniaeth rhywedd. Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n casglu ac yn dadansoddi data mewn ffordd fwy cynhwysol er mwyn llywio ein gwaith cydraddoldeb ehangach.

**Deall y Bwlch Cyflog Rhywedd**

Mae'r bwlch cyflog rhywedd yn mesur y gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog dynion a menywod ar draws y sefydliad, wedi'i fynegi fel canran o enillion dynion. Nid yw'r un peth â chyflog cyfartal, sy'n cyfeirio at dalu dynion a menywod yn gyfartal am yr un rolau neu rolau tebyg.

**Crynodeb o'r Gweithlu**


- **Y gweithlu sydd wedi'i gynnwys (ciplun):**
    - Cyflogeion perthnasol: **773** (Gwrywod 338; Benywod 435)
    - **Cyflogeion perthnasol ar gyflog llawn** a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r bwlch cyflog: **771** (Gwrywod **337** = **43.71%**; Benywod **434** = **56.29%**) h.y. nid oedd dau gyflogai ar gyflog llawn yn ystod y cyfnod cyflog.
- **Bwlch cyflog fesul awr (cyflogeion perthnasol cyflog llawn):**
    - Cyfradd gymedrig fesul awr: Menywod £17.00; Dynion £16.86 → Bwlch cyflog cymedrig = −0.83% (cyflog cymedrig fesul awr i fenywod £0.14 yn uwch na dynion)
    - Cyfradd ganolrifol fesul awr: Menywod £15.33; Dynion £15.33 → Bwlch cyflog canolrifol = 0.00%
- **Dosbarthiad cyflog fesul chwartel (cyflogeion perthnasol cyflog llawn):**
    - Chwartel isaf: 39.38% Gwrywod | 60.62% Benywod


- Chwartel canol isaf: 44.04% Gwrywod | 55.96% Benywod
- **Chwartel canol uchaf: 51.81% Gwrywod | 48.19% Benywod**
- Chwartel uchaf: 39.58% Gwrywod | 60.42% Benywod


- Bonysau: Nid yw Amgueddfa Cymru yn gweithredu tâl bonws, felly nid yw adroddiad am fwlch cyflog rhywedd yn gymwys.

**Trosolwg Gweledol o'r Data**


**Cymedr** | **Canolrif**










## Canran y Staff (Gwryw/Benyw) fesul Chwartel




## Nifer y Staff (Gwryw/Benyw) fesul Chwartel




| | QTR1 | QTR2 | QTR3 | QTR4 |
|---|---|---|---|---|
| Male | 76 | 85 | 100 | 76 |
| Female | 117 | 108 | 93 | 116 |

**Trosolwg**

Mae ein bwlch cyflog canolrifol yn sero sy'n dangos ei fod yn ffafrio menywod o 0.83%. Mae menywod wedi'u cynrychioli'n dda yn y chwartel cyflog isaf ac uchaf; mae ychydig yn ormod o gynrychiolaeth i ddynion yn y chwartel canol uchaf, sef y prif faes i fynd i'r afael ag ef.

**Y cyd-destun cyfreithiol a'r fethodoleg**

Mae Amgueddfa Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol inni gyhoeddi'r Bwlch Cyflog Rhywedd yn flynyddol gan ddefnyddio'r fethodoleg safonol (cyflog cymedrig/canolrifol fesul awr ar gyfer cyflogeion perthnasol cyflog llawn a dosbarthiadau chwartel). Dyddiad y ciplun o sefydliadau preifat, gwirfoddol ac awdurdodau cyhoeddus eraill/cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw 5 Ebrill, a disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi o fewn 12 mis ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae'r holl setiau data wedi'u darparu gan yr adran Adnoddau Dynol a'r adran Gyllid.

**Cyflog cyfartal vs bwlch cyflog rhywedd:** mae'r adroddiad yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y cyflog cyfartalog ar draws yr holl fenywod a dynion, nid cyflog cyfartal am waith cyfartal (sy'n gysyniad cyfreithiol ar wahân).

**Y dull a ddefnyddiwyd eleni:**

- Nodi'r cyflogeion perthnasol ar gyflog llawn ar 5 Ebrill 2025.
- Cyfrifo'r cyfraddau fesul awr a chyfrifo'r cymedr/canolrif yn ôl rhywedd.
- Graddio'r rhain yn ôl cyfradd fesul awr i ffurfio pedwar chwartel cyfartal (Chwartel 1=isaf; Chwartel 4 = uchaf).

**Cyfansoddiad y gweithlu (cyflog llawn)**

- **Dynion: 337** (**43.71%)**
- **Menywod: 434** (**56.29%)**
- **Cyfanswm: 771**

Mae'r cymysgedd rhywedd hwn yn gyson yn fras â'r blynyddoedd diwethaf lle rydym fel arfer wedi cyflogi cyfran uwch o fenywod drwyddi draw.

**Canlyniadau'r bwlch cyflog rhywedd fesul awr (cyflog llawn)**

| Metrig | Menywod | Dynion | Bwlch (Dynion – Menywod) | % Bwlch |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflog cymedrig fesul awr** | **£17.00** | **£16.86** | **-£0.14** | **-0.83%** |
| **Cyflog canolrifol fesul awr** | **£15.33** | **£15.33** | **£0.00** | **0.00%** |

- Mae canran **negyddol** yn golygu bod cyflog cyfartalog menywod yn uwch na chyflog cyfartalog dynion.

**Chwartelau cyflog (cyflog llawn)**

**Niferoedd yr unigolion fesul chwartel**

| Chwartel | Gwrywod | Benywod | Cyfanswm | % Gwrywod | % Benywod |
|---|---|---|---|---|---|
| **Isaf (Ch1)** | 76 | 117 | 193 | **39.38%** | **60.62%** |
| **Canol Isaf (Ch2)** | 85 | 108 | 193 | **44.04%** | **55.96%** |
| **Canol Uchaf (Ch3)** | **100** | **93** | 193 | **51.81%** | **48.19%** |
| **Uchaf (hC4)** | 76 | 116 | 192 | **39.58%** | **60.42%** |

- Y chwartel canol uchaf (Ch3) yw'r unig chwartel sydd â mwy o ddynion na menywod: mynd i'r afael â chynrychiolaeth yma yw ein lifer mwyaf

perthnasol ar gyfer cynnal a gwella'r bwlch cymedrig.

**Sbardunau**

- Mae'n bwlch canolrifol o 0.00% yn parhau â'r sefyllfa gadarnhaol a welwyd yn y cylchoedd adrodd blaenorol. Mae'r bwlch cymedrig o -0.83% yn adlewyrchu mantais fach o £0.14c yn y cyflog cymedrig fesul awr i fenywod, sy'n gyson â chynrychiolaeth gref menywod yn y chwartel uchaf a dosbarthiad cytbwys mewn mannau eraill.
- Gall y gorgynrychiolaeth fach o ddynion yn Ch3 (lle ceir llawer o rolau technegol/gweithredol) wthio'r bwlch cymedrig. Gan hynny, bydd ein camau'n targedu denu menywod, creu dilyniant i fenywod a chadw menywod yn Ch3 a chadw cydbwysedd yn Ch4 yr un pryd.

**Y cyd-destun o'r naill flwyddyn i'r llall**

- **Y llynedd (ciplun 5 Ebrill 2024):**
  - Bwlch cyflog cymedrig: +1.59% (cyflog cymedrig dynion yn uwch)
  - Bwlch cyflog canolrifol: 0.00%
  - Cafodd camau eu cytuno a'u cyhoeddi (Cymraeg/Saesneg) o dan oruchwyliaeth y Bwrdd.

**Beth sydd wedi newid:** Rydym wedi symud o fwlch cymedrig cadarnhaol bach (1.59%) yn 2024 i fwlch cymedrig negyddol bach (-0.83%) yn 2025, gan gadw'r canolrif yn 0%. Mae hyn yn awgrymu bod newidiadau yng nghymysgedd y rolau a'r dilyniant ar draws y dosbarthiad, ochr yn ochr â recriwtio, wedi gwella ychydig ar y sefyllfa gymedrig o'r naill flwyddyn i'r llall.

**Cymhariaeth Data Hanesyddol**

**Cyfradd Gyflog Gymedrig fesul Awr**

| Ebrill 2023 | Ebrill 2024 | Ebrill 2025 |
|---|---|---|
| **Menywod: £14.91**<br><br>**Dynion: £15.15**<br><br>**Bwlch cyflog cymedrig fesul awr: 1.58%** | **Menywod: £14.82**<br><br>**Dynion: £15.06**<br><br>**Bwlch cyflog cymedrig fesul awr: 1.59%** | **Menywod: £17.00**<br><br>**Dynion: £16.86**<br><br>**Bwlch cyflog cymedrig fesul awr: -0.83%** |

**Cyfradd Dâl Ganolrifol fesul Awr**

| Ebrill 2023 | Ebrill 2024 | Ebrill 2025 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Menywod: £12.84**<br><br>**Dynion: £12.84**<br><br>**Bwlch cyflog canolrifol fesul awr: 0.00%** | **Menywod: £12.84**<br><br>**Dynion: £12.84**<br><br>**Bwlch cyflog canolrifol fesul awr: 0.00%** | **Menywod: £15.33**<br><br>**Dynion: £15.33**<br><br>**Bwlch cyflog canolrifol fesul awr: 0.00%** |

**Llywodraethu a chyhoeddi**

- Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, dyddiad ein ciplun ni yw 5 Ebrill a rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn 4 Ebrill 2026.
- Mae'r Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC) wedi comisiynu'r Adroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhywedd i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026, cyn ei gyhoeddi.

**Camau a mentrau (2026-27)**

Gan adeiladu ar ein hymrwymiadau yn y blynyddoedd blaenorol a'n cynlluniau cyflawni ar gyfer chwarter 4, byddwn yn cymryd y camau canlynol sydd wedi'u targedu. Mae pob cam yn cysylltu â'r dosbarthiad a welwyd yn 2025 (yn enwedig Ch3) ac â'n hymrwymiadau ehangach ar gydraddoldeb (Cynllun Cydraddoldeb Strategol, adroddiadau EDI, a phartneriaethau ar draws Cymru).

**A. Recriwtio, denu ac allgymorth**

1. **Ehangu'r llwybrau denu i rolau Ch3.** Defnyddio hysbysebion cynhwysol, delweddau cytbwys rhwng y rhyweddau, a phroffiliau rôl mewn iaith glir; hysbysebu trwy rwydweithiau sydd â nifer dda o ddarllenwyr benyw; trefnu cynllun peilot o sgrinio sgiliau ar gyfer swyddi allweddol Ch3. **DPA:** ≥ 50% o fenywod ar restrau byr ar gyfer recriwtio i Ch3; penodi ≥ 50% o fenywod i Ch3 erbyn Mawrth 2027.
2. **Partneriaethau cymunedol a phartneriaethau sector.** Parhau i weithio gyda chymheiriaid yn y sector i rannu arferion ar ddileu bylchau cyflog ac ehangu llwybrau cyfranogi i mewn i rolau technegol/gweithredol. **DPA:** cyflwyno dwy ymgyrch allgymorth wedi'u targedu bob blwyddyn sy'n canolbwyntio ar deuluoedd rolau Ch3.

**B. Dilyniant, datblygu a symudedd mewnol**

3. **Llwybrau dilyniant tryloyw i Ch3.** Mapio teuluoedd rolau a chreu cyfleoedd i gamu i fyny (dirprwyo, secondio, cysgodi). **DPA:** cynnydd ≥  o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer y menywod sy'n cymryd cyfleoedd datblygu i fwydo Ch3.
4. **Dewisiadau sy'n ymwybodol o ragfarn.** Mandadu paneli cymysg eu rhywedd a chyfweliadau strwythuredig ar gyfer rolau Ch2–Ch4; parhau â hyfforddiant

tegwch/rhagfarn i bob rheolwr sy'n cyflogi. **DPA:** 100% o'r rheolwyr i gwblhau'r hyfforddiant a'i adnewyddu bob blwyddyn.

**C. Fframwaith cyflogau, polisïau a gwaith hyblyg**

5. **Adolygu polisïau o safbwynt cynhwysiant a hygyrchedd.** Parhau â'r adolygiadau polisi adnoddau dynol sydd wedi'u trefnu drwy lens cynhwysiant; cyhoeddi crynodebau hawdd eu darllen/dwyieithog lle bo'n briodol. **DPA:** adolygu 100% o'r polisïau pobl ar gylch 3 blynedd gydag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA).

**D. Data, tystiolaeth a thryloywder**

7. **Dyfnhau ansawdd data'r gweithlu.** Cynyddu cyfraddau cwblhau ar nodweddion gwarchodedig i ganiatáu dadansoddiadau o'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd, gan eu cysoni â disgwyliadau'r sector cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg. **DPA**: cyfradd ddatgan ≥ 85% erbyn Mawrth 2027.

8. **Monitro ac adrodd rheolaidd.** Ymgorffori dangosyddion y bwlch cyflog rhywedd yn gadarn yn adroddiadau a dangosfyrddau'r PRCC; ymgorffori ymarferion EIA a hyfforddiant i reolwyr. **DPA:** diweddariadau i'r PRCC bob chwarter; cwblhau 100% o'r projectau perthnasol gydag EIA.

**E. Llais y cyflogeion a chadw cyflogeion**

9. **Targedu'r gwrando.** Cynnal arolygon sy'n cynnwys cwestiynau ar dryloywder cyflogau, hyder gyrfa a rhwystrau sy'n atal dilyniant; grwpiau ffocws ar gyfer rolau Ch3; olrhain rhesymau dros ymadael fesul rhywedd. **DPA:** lleihau'r anghydbwysedd rhywedd yn Ch3.

Mae'r camau hyn yn ymestyn ac yn mireinio'r ymrwymiadau a gymeradwywyd yn ein papurau blaenorol i'r Bwrdd ac yn yr adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi ar y bwlch cyflog rhywedd; maent wedi'u cynllunio i gadw bwlch canolrifol o sero ac i gydbwyso'r gynrychiolaeth yn Ch3 heb erydu presenoldeb cryf menywod yn Ch4.

**10) Risgiau a lliniaru**

- **Symud y cymysgedd rolau:** Gallai recriwtio i rolau gweithredol/technegol penodol ailagor bwlch cymedrig cadarnhaol.
  **Lliniaru:** camau rhagweithiol ar lwybrau Ch3; monitro bob chwarter.

- **Ansawdd data:** Gallai data annigonol ar ddatganiadau gyfyngu ar ddadansoddiadau ehangach ynglŷn â'r bwlch cyflog (ethnigrwydd/anabledd).
  **Lliniaru:** cynllun gwella data strwythuredig a chyfathrebu.

**11) Casgliadau**

- Ciplun 2025: bwlch canolrifol 0.00% a bwlch cymedrig −0.83% (o blaid menywod), gyda Ch3 yn brif faes ffocws ar gyfer cydbwyso pellach.

- Y duedd vs 2024: gwelliant o fwlch cymedrig +1.59% i -0.83%, gan gadw'r canolrif yn 0%.
- Y camau nesaf: cymeradwyaeth gan y PRCC ym mis Ionawr 2026, cyhoeddi (yn ddwyieithog), a monitro'r cyflawniad fesul chwarter.